CYHOEDDIAD

# Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Cafcass Cymru: 2 Tachwedd 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Cafcass Cymru 2 Tachwedd 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 5 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-pwyllgor-ymgynghorol-cafcass-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Yn bresennol

1. Croeso a chyflwyniadau

2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021– eu cymeradwyo cyn eu cyhoeddi ar wefan Cafcass Cymru – a materion sy'n codi

3. Data Perfformiad / Pwysau ar Adnoddau

4. Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc – Diweddariad ar Lafar a Chyflwyniad

5. Diweddariad ar Gyfraith Breifat

6. Diweddariad ar y Gyfraith Gyhoeddus

7. Unrhyw fater arall

8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

# Yn bresennol

- Jackie Murphy: Cadeirydd
- Andrew: Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc
- Laura: Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc
- Paul Apreda: FNF Both Parents Matter Cymru
- Sarah Coldrick: Cymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu (AFA) Cymru
- Beth Flowers: Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-pwyllgor-ymgynghorol-cafcass-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Tracey Holdsworth: NSPCC Cymru
- Lesley Hyde: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
- Gareth Jenkins: Cynrychiolydd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Sara Kirkpatrick: Cymorth i Ferched Cymru
- Donna Mulhern: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
- Sean O'Neill: Plant yng Nghymru
- HHJ Jayne Scannell: Barnwriaeth
- Samantha Williams: Anabledd Dysgu Cymru
- Nigel Brown: Cafcass Cymru
- Matthew Pinnell: Cafcass Cymru
- De Litchfield: Cafcass Cymru
- Rhianon James: Cafcass Cymru (Ysgrifenyddiaeth)

# 1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys HHJ Jayne Scannell a Sam Williams, a oedd wedi ymuno â'r pwyllgor yn ddiweddar. Hefyd, rhoddodd y cadeirydd groeso arbennig o gynnes i Andrew a Laura, sydd yn aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Catrin Cracroft: Cynrychiolydd Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Sharon Lovell: Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru
- Beth Altman: Cafcass Cymru

Dywedodd y cadeirydd wrth aelodau'r pwyllgor fod Sharon Lovell wedi anfon ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod, gan nodi y byddai'r cyfarfod ar yr un diwrnod y byddai hi yn Windsor yn casglu ei MBE. Llongyfarchodd y cadeirydd Sharon ar ei chyflawniad rhagorol.

# 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021– eu cymeradwyo cyn eu cyhoeddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-pwyllgor-ymgynghorol-cafcass-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## ar wefan Cafcass Cymru – a materion sy'n codi

Wedi cytuno. Nid oedd unrhyw ddiwygiadau i'r cofnodion ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

# 3. Data Perfformiad / Pwysau ar Adnoddau

Rhoddodd Nigel drosolwg o'r atgyfeiriadau a'r ffigurau perfformiad ar gyfer Medi 2021. Cafwyd trafodaeth fanwl wedyn ac ymatebodd Nigel a Matthew i gwestiynau a godwyd gan aelodau o'r pwyllgor.

Dangosodd y data fod y pwysau ar staff wedi bod yn sylweddol, nid yn unig oherwydd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud ond hefyd oherwydd ôl-groniad o achosion yn y system cyfiawnder teuluol. Gofynnodd y cadeirydd ynglŷn â chyswllt â phlant. Dywedodd Nigel, yn dilyn ymgynghoriad â staff yn ystod yr haf, y cyhoeddodd Cafcass Cymru ganllawiau newydd i'r staff. Mae ymarferwyr yn cael eu hannog i barhau â dull cyfunol, gan weld teuluoedd a phlant wyneb yn wyneb ac o bell. Mae disgwyl i ymarferwyr gynnal o leiaf un cyfarfod wyneb yn wyneb â'r plant yn ystod bywyd achos.

# 4. Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc – Diweddariad ar Lafar a Chyflwyniad

Rhoddodd Laura ac Andrew gyflwyniad ar waith y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc. Roedd hyn yn cynnwys rôl aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc, y bobl y mae'n gweithio gyda hwy, ei waith gyda Cafcass Cymru, rhestr o awgrymiadau gorau i ymarferwyr, a'i flaenoriaethau. Canmolwyd Laura ac Andrew ar eu cyflwyniad gan aelodau'r Pwyllgor Cynghori, o ran ei gynnwys a'i ddull cyflwyno. Rhoddwyd adborth gan aelodau o'r pwyllgor a chafwyd trafodaeth frwdfrydig wedyn. Roedd graddfa gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc wedi creu cryn argraff ar aelodau'r pwyllgor ac roedd rhai ohonynt am helpu'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-pwyllgor-ymgynghorol-cafcass-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Diolchodd y cadeirydd i Laura ac Andrew am eu cyflwyniad rhagorol a diolchodd i De am hwyluso'r sesiwn.

## 5. Diweddariad ar Gyfraith Breifat

Rhoddodd Matthew gyflwyniad ar ddiwygio'r gyfraith breifat. Ystyrioedd ei gyflwyniad y rhesymau dros ddiwygio'r gyfraith breifat ac amcanion hirdymor y gwaith hwn. Gwnaeth Matthew hefyd gyflwyno prif ganfyddiadau adroddiad a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym Mehefin 2020, "Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Cyfraith Breifat", a chamau nesaf Cafcass Cymru, a rhoddodd amlinelliad byr o Gynllun Beilot Braenaru Gogledd Cymru, yr amcangyfrifir y bydd yn dechrau ym mis Ionawr 2022.

Cafwyd trafodaeth fywiog wedyn a rhannodd yr aelodau eu sylwadau.

Diolchodd y cadeirydd i Matthew am ei gyflwyniad manwl.

## 6. Diweddariad ar y Gyfraith Gyhoeddus

Gan fod yr aelodau wedi cael trafodaeth gyfoethog ar y gyfraith breifat, awgrymodd Matthew fod yr eitem hon ar yr agenda yn cael ei symud i'r cyfarfod nesaf. Cytunwyd ar hyn gan yr holl aelodau.

## 7. Unrhyw fater arall

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben.

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf o bell am 4pm, ddydd Mawrth 15 Mawrth 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-pwyllgor-ymgynghorol-cafcass-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Diolchodd y cadeirydd i aelodau Pwyllgor Cynghori Cafcass Cymru, yn enwedig i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc, am eu hamser a'u cyfraniad gwerthfawr i'r cyfarfod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-pwyllgor-ymgynghorol-cafcass-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Cafcass Cymru: 2 Tachwedd 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-pwyllgor-ymgynghorol-cafcass-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-pwyllgor-ymgynghorol-cafcass-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.